Archwilio Cymru
Audit Wales

# Gwella'r Broses o Reoli Prosiectau – **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**

Blwyddyn archwilio: 2020

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 2025A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn rhan o waith a gyflawnir yn unol ag adran 18 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ac adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004). Gall hefyd lywio astudiaeth ar wella gwerth am arian o dan adran 41 o Ddeddf 2004, a/neu archwiliad a gynhelir gan yr Archwilydd Cyffredinol o dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb mewn cysylltiad ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn ei rinwedd unigol, nac unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth iddynt ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Mae'r Cyngor wedi gwella trefniadau rheoli prosiectau a'u diffinio nhw'n glir, ond absenoldeb gwaith rheoli prosiectau yn yr eiddo ym Mharc Masnach Mochdre oedd prif achos y problemau a ddigwyddodd.

Adroddiad cryno 4

Adroddiad manwl

Mae'r Cyngor wedi gwella trefniadau rheoli prosiectau a'u diffinio nhw'n glir, ond absenoldeb gwaith rheoli prosiectau yn yr eiddo ym Mharc Masnach Mochdre oedd prif achos y problemau a ddigwyddodd 6

- Nodir trefniadau rheoli prosiect sydd wedi eu diffinio'n glir yn Fframwaith Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau y Cyngor, a gefnogir gan dîm corfforaethol penodedig a meddalwedd addasedig 6
- Mae Fframwaith Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau y Cyngor yn annog hunanfyfyrio, dysgu a gwella drwy gydol cylch oes y prosiect 7
- Mae'r Cyngor yn diweddaru ac yn datblygu eu trefniadau rheoli prosiectau er mwyn adlewyrchu arferion da, newidiadau i bolisïau, gweithdrefnau a strwythurau y Cyngor, ac er mwyn ymateb i argymhellion 7
- Achos sylfaenol y materion a oedd yn wynebu'r Cyngor wrth iddynt lesio eiddo ym Mharc Masnach Mochdre oedd diffyg rheolaeth prosiect 8
- Mae'r Cyngor wedi cymryd camau y maent yn credu y byddant yn atal y materion y maent wedi eu hwynebu gyda'r eiddo ym Mharc Masnach Mochdre rhag digwydd eto 9

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn a adolygwyd gennym a pham

1 Yn rhan o raglen waith archwilio 2019-20 yr Archwilydd Cyffredinol, cynhaliwyd adolygiad gennym er mwyn cael sicrwydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (y Cyngor) wedi gwella trefniadau rheoli prosiectau ac wedi gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad annibynnol ar Barc Masnach Mochdre a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Gyllid ac Adnoddau ar 21 Mawrth 2019.

2 Fe wnaethom adolygu hefyd a gymerodd y Cyngor gamau i fynd i'r afael ag argymhellion a wnaed mewn adolygiad o Gontractio a Chaffael yn 2012 a nododd themâu gwella tebyg.

3 Cynhaliwyd yr adolygiad gennym yn ystod y cyfnod rhwng Rhagfyr 2019 a Mawrth 2020.

### Ein dull

4 Ym mis Rhagfyr 2019, cynhaliwyd cyfarfodydd gennym â'r Prif Swyddog Gweithredol, sawl swyddog allweddol arall o'r Cyngor a rhai Cynghorwyr i drafod cwmpas y gwaith ac i gael golwg gyffredinol o drefniadau rheoli rhaglenni a phrosiectau cyfredol y Cyngor. Roedd yr adolygiad hefyd yn cynnwys ystyried dogfennau allweddol, megis y Fframwaith Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau, a phapurau Pwyllgor y Cyngor.

5 Sefydlwyd ein hadolygiad cyn dechrau pandemig COVID-19. Roeddem wedi bwriadu adolygu un neu fwy o brosiectau o'r gorffennol a phrosiect byw i'w defnyddio fel olrheiniwyr, er mwyn ystyried i ba raddau y ceir tystiolaeth bod y trefniadau rheoli prosiectau yn cael eu defnyddio a'u bod nhw'n cyfrannu at ganlyniadau gwell ac yn sicrhau gwerth am arian. Felly, mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y broses o gynllunio trefniadau rheoli prosiectau yn y Cyngor.

### Yr hyn a ganfuwyd gennym

6 Ceisiodd ein hadolygiad ateb y cwestiwn: 'A yw'r Cyngor wedi gwella trefniadau rheoli prosiectau ac wedi gweithredu er mwyn mynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad annibynnol ar Barc Masnach Mochdre a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Gyllid ac Adnoddau ar 21 Mawrth 2019?'.

7 Hefyd, fe wnaethom ystyried yn benodol a yw'r Cyngor wedi gwneud cynnydd i fynd i'r afael â:

- y pum argymhelliad yn adroddiad mis Mawrth 2019; a'r
- 21 argymhelliad o adolygiad Contractio a Chaffael mis Gorffennaf 2012.

8 Yn gyffredinol, canfuwyd gennym fod: Y Cyngor wedi gwella trefniadau rheoli prosiectau a'u diffinio nhw'n glir, ond mai absenoldeb gwaith rheoli prosiectau yn yr

eiddo ym Mharc Masnach Mochdre oedd prif achos y problemau a ddigwyddodd. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- nodir trefniadau rheoli prosiect sydd wedi eu diffinio'n glir yn Fframwaith Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau y Cyngor, a gefnogir gan dîm corfforaethol penodedig a meddalwedd addasedig;
- mae Fframwaith Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau y Cyngor yn annog hunanfyfyrio, dysgu a gwella drwy gydol cylch oes y prosiect;
- mae'r Cyngor yn diweddaru ac yn datblygu eu trefniadau rheoli prosiectau er mwyn adlewyrchu arferion da, newidiadau i bolisïau, gweithdrefnau a strwythurau y Cyngor, ac er mwyn ymateb i argymhellion;
- achos sylfaenol y materion a oedd yn wynebu'r Cyngor wrth iddynt lesio eiddo ym Mharc Masnach Mochdre oedd diffyg rheolaeth prosiect; ac
- mae'r Cyngor wedi cymryd camau y maent yn credu y byddant yn atal y materion y maent wedi eu hwynebu gyda'r eiddo ym Mharc Masnach Mochdre rhag digwydd eto.

## Cynigion ar gyfer gwella

**Arddangosyn 1: Cynigion ar gyfer gwella**

Mae'r tabl isod yn cynnwys y cynigion ar gyfer gwella a nodiwyd gennym yn sgil yr adolygiad hwn.

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| C1 | Mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau eu bod yn defnyddio system CAMMS i gofnodi a rheoli pob prosiect sy'n dod o fewn cylch gwaith Fframwaith Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau y Cyngor. |

# Adroddiad manwl

## Mae'r Cyngor wedi gwella trefniadau rheoli prosiectau a'u diffinio nhw'n glir, ond absenoldeb gwaith rheoli prosiectau yn yr eiddo ym Mharc Masnach Mochdre oedd prif achos y problemau a ddigwyddodd

### Nodir trefniadau rheoli prosiect sydd wedi eu diffinio'n glir yn Fframwaith Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau y Cyngor, a gefnogir gan dîm corfforaethol penodedig a meddalwedd addasedig

9 Wrth ddod i'r casgliad hwn, nodwyd y canlynol gennym:

- yn 2007, cymeradwyodd Cabinet y Cyngor Fframwaith Rheoli Prosiectau Corfforaethol, a ddaeth y Fframwaith Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau cyfredol (y Fframwaith) yn 2011.
- mae'r Fframwaith yn darparu dull generig, graddedig a strwythuredig o gyflawni rhaglenni a phrosiectau, gyda swyddogaethau, cyfrifoldebau a threfniadau llywodraethu wedi eu nodi'n glir.
- yn seiliedig ar y Prosiectau mewn Amgylchedd Rheoledig (PRINCE 2) a methodolegau Rheoli Rhaglenni yn Llwyddiannus, mae'r Fframwaith yn adlewyrchu arferion gorau ar gyfer rheoli prosiectau a rhaglenni.
- mae adnoddau corfforaethol penodedig yn hwyluso ac yn cefnogi'r dyhead o reoli prosiectau yn gyson ar draws y Cyngor. Er enghraifft:
  - mae gan y Cyngor Dîm Rheoli Rhaglenni a Phrosiect y mae gan eu haelodau gymwysterau proffesiynol ym maes rheoli rhaglenni a phrosiectau. Arweiniodd aelod o'r tîm Raglen Foderneiddio Conwy, a enillodd Raglen y Flwyddyn y Gymdeithas Rheoli Prosiectau yn 2019.
  - mae'r Tîm Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau yn darparu hyfforddiant sydd wedi ei dargedu a'i addasu ar reoli prosiectau ar draws y Cyngor, gan ddarparu ar gyfer staff y mae ganddynt brofiad o gyflawni prosiectau yn ogystal â'r rhai y mae prosiectau yn newydd iddynt, ac y mae hefyd yn cefnogi Uwch-swyddogion ac Aelodau etholedig yn eu swyddogaethau yn aelodau o'r Bwrdd Prosiect.
  - mae'r Tîm Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau yn cynnal y Fforwm Rheoli Prosiectau a Rhaglenni, sydd:
    - yn rhoi gwybodaeth a chyngor arbenigol i staff ar reoli prosiectau, megis diweddariadau i'r Fframwaith; ac
    - yn dod â rheolwyr a swyddogion prosiect at ei gilydd, gan roi cyfleoedd iddynt drafod materion a rhannu gwybodaeth drwy

drefnu sesiynau ar bynciau rheoli prosiectau penodol a thrwy gynnal grwpiau defnyddwyr megis Grŵp Defnyddwyr Cammsproject.

- mae llifau gwaith yn **cammsproject**, a nodweddion rheoli prosiectau a rhaglenni system feddalwedd CAMMS a gafaelwyd, wedi eu ffurfweddu i gefnogi'r Fframwaith ac maent yn galluogi dull cyson o gynllunio, o fonitro ac o reoli prosiectau.

## Mae Fframwaith Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau y Cyngor yn annog hunanfyfyrio, dysgu a gwella drwy gydol cylch oes y prosiect

10 Wrth ddod i'r casgliad hwn, nodwyd y canlynol gennym:

- mae'r Cyngor yn mabwysiadu egwyddorion PRINCE2 a Rhaglenni Rheoli Llwyddiannus sy'n 'dysgu o brofiad' drwy integreiddio camau 'gwersi a ddysgwyd', 'logiau risg' a chamau 'oedi ac adolygu' i'r Fframwaith a phrosiect CAMMS a nodweddion y rhaglen, sef **cammsproject**;
- mae'r camau 'Cynllun Gwireddu Manteision' yn y Fframwaith, ynghyd â chwblhad adroddiad 'Diwedd y Prosiect', yn caniatáu i brosiectau edrych yn ôl ac asesu'r manteision y gobeithiwyd eu cael o'u cymharu â chanlyniadau'r prosiect a nodi pwyntiau dysgu o brosiect; ac
- yn gronfa ddata fyw o'r holl brosiectau a rhaglenni ar draws y Cyngor gyda galluoedd adrodd da, mae **cammsproject** CAMMS yn cipio ac yn archwilio materion, risgiau, pwyntiau dysgu allweddol ac arferion da mewn amser real ac yn eu rhannu â defnyddwyr eraill.

## Mae'r Cyngor yn diweddaru ac yn datblygu eu trefniadau rheoli prosiectau er mwyn adlewyrchu arferion da, newidiadau i bolisïau, gweithdrefnau a strwythurau y Cyngor, ac er mwyn ymateb i argymhellion

11 Wrth ddod i'r casgliad hwn, nodwyd y canlynol gennym:

- mae'r Cyngor yn adnewyddu, yn adolygu ac yn diweddaru'r Fframwaith yn ôl yr angen er mwyn adlewyrchu arferion da o ran rheoli prosiectau a newidiadau i ffyrdd y Cyngor o weithio.
- mae'r Cyngor wedi ymateb i'r argymhellion a wnaed yn adolygiad Contractio a Chaffael 2012.
  – daeth adolygiad 2012 i'r casgliad bod y Cyngor yn perfformio'n anghyson wrth gaffael a chontractio cyflenwyr allanol. Roedd angen gwella sawl agwedd ar y broses gontractio, gan gynnwys y ffordd y cymhwyswyd gweithdrefnau mewn llawer o wasanaethau'r Cyngor.

  - mae ein hadolygiad yn cadarnhau bod y Cyngor wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed.
- mae gan y Cyngor barodrwydd i groesawu newid, i fabwysiadu arferion da sy'n dod i'r amlwg ac i ymateb i arsylwadau mewnol ac allanol, a ddangoswyd drwy sefydlu Bwrdd Cyfleoedd Conwy yn gynnar yn 2019. Y prif ffactorau a nodwyd ar gyfer creu Bwrdd Cyfleoedd Conwy oedd yr angen i'r Cyngor gael modd i:
  - oruchwylio pob prosiect a rhaglen a'u cyfraniad at wireddu'r Cynllun Corfforaethol.
  - sicrhau mai prosiectau a rhaglenni cyfredol ac arfaethedig ar draws yr awdurdod yw'r rhai cywir i helpu i gyflawni amcanion strategol y Cyngor.
  - datblygu eu dull o reoli prosiectau a rhaglenni fel eu bod yn unol ag arferion proffesiynol 'Rheoli Portffolio'.
  - ymateb i:
    - Llythyr Archwilio Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru (Rhagfyr 2018).
    - Arolwg Staff 2018, a ddangosodd ostyngiad ym marn y staff bod syniadau ar gyfer gwelliannau i wasanaethau cwsmeriaid yn cael eu hannog ac y gwrandewir ar gyfraniadau a'u bod nhw'n gwneud gwahaniaeth.
    - darparu her a chymorth i brosiectau a rhaglenni cyn i faterion arwyddocaol ddechrau datblygu.

## Achos sylfaenol y materion a oedd yn wynebu'r Cyngor wrth iddynt lesio eiddo ym Mharc Masnach Mochdre oedd diffyg rheolaeth prosiect

12 Wrth ddod i'r casgliad hwn, nodwyd y canlynol gennym:

- mae'r Fframwaith wedi ei ysgrifennu'n dda ac mae'n gwahaniaethu'n glir rhwng materion sy'n gofyn am brosiect a'r rhai sy'n rhan o waith bob dydd.
- dylai'r broses o gaffael y les fod wedi cael ei thrin fel prosiect a reoleiddir yn briodol o dan y Fframwaith, ond nid fel hyn y bu. Er bod lle i ddryswch ar y mater hwn, roedd tystiolaeth o ddiffyg dealltwriaeth o ganllawiau'r Fframwaith a beth yw 'prosiect'.
- ni ddilynwyd y fframwaith rheoli prosiectau, ac ni sefydlwyd digon o lywodraeth prosiectau. Byddai strwythur rheoli prosiect sy'n gweithio'n iawn, fel yr un sydd ar waith yn y Cyngor, wedi gallu ymdrin â'r materion sydd wedi codi a byddai wedi datgelu anfanteision yr eiddo cyn i'r Cyngor ymrwymo i'r les.

## Mae'r Cyngor wedi cymryd camau y maent yn credu y byddant yn atal y materion y maent wedi eu hwynebu gyda les yr eiddo ym Mharc Masnach Mochdre rhag digwydd eto

13 Wrth ddod i'r casgliad hwn, canfuom fod y Cyngor wedi ymateb i'r argymhellion a nodir yn yr adroddiad ar gaffael y les ym Mharc Masnach Mochdre drwy:

- ddarparu rhaglen hyfforddi addasedig ar y Fframwaith ar gyfer Aelodau a staff y Cyngor. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu hyfforddiant gloywi yn rheolaidd ac maent yn ei gwneud yn ofynnol i staff newydd ymgymryd â'r hyfforddiant cyn cymryd rhan mewn unrhyw brosiectau.
- ystyried y materion a godwyd gan yr adroddiad annibynnol ar Barc Masnach Mochdre, gan ddiweddaru'r Fframwaith gyda chanllawiau ychwanegol sy'n ymwneud â materion trefniadau adrodd, ymaelodi â'r bwrdd a gwneud penderfyniadau.
- cyflwyno Rhestrau Gwirio sy'n Ddiogel rhag Methu ar drafodion sylweddol sy'n ymwneud ag eiddo (y rhai ac iddynt werth dros £250,000 neu lle bo materion anarferol neu gymhleth â'r eiddo) fel bod rhaid i Uwch Dîm Arweinyddiaeth y Cyngor adolygu a chraffu ar ymrwymiad cyn cytuno arno.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.